Llywodraeth Cymru

Stamp swyddfa APHA

Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981
Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd)
Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003

Trwydded Daliad Cyfagos i Symud Gwartheg Heb fod Angen Cynnal Profion TB cyn Symud na Gosod Cyfnod Gwahardd Symud Da Byw

Enw a chyfeiriad y sawl yr anfonir y Drwydded hon ato

Cod post:	Rhif y Daliad:

Rwy'n awdurdodi, yn ddarostyngedig i'r Amodau a atodir i'r drwydded hon, symud y gwartheg i'r tir a nodir isod (ac oddi yno):

Math o broses symud gwartheg

O:

Manylion y daliad (gan gynnwys Rhif y Daliad)

I:

Manylion y daliad (gan gynnwys Rhif y Daliad), neu fanylion y tir pori comin (os yw'n berthnasol)
Y tir a nodir â chroeslinellau ar y map atodedig, sy'n ffurfio rhan o'r daliad.

Mae'r drwydded hon yn ddilys ar gyfer defnydd lluosog (h.y. i'r tir a nodir uchod ac oddi yno).

Nid yw'r drwydded hon yn disodli unrhyw gyfyngiadau ar symud anifeiliaid a osodwyd oherwydd unrhyw glefyd anifeiliaid ac eithrio twbercwlosis buchol.

Mae'r drwydded hon yn ddilys o

Llofnodwyd

Swyddog APHA

Dyddiad

Enw mewn PRIFLYTHRENNAU

Rhif ffôn ar gyfer ymholiadau
(gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol)

Darllenwch yr amodau dros y dudalen

Amodau Rhoi Trwydded

1. Dim ond er mwyn symud gwartheg **ar droed** rhwng daliadau cyfagos (h.y. daliadau â chyd-derfyn) yng Nghymru heb fod angen profion Cyn Symud y gellir defnyddio'r drwydded hon.

2. Bydd gwartheg yn symud rhwng daliadau yn uniongyrchol, neu ar draws (ac mewn achosion penodol, dros bellteroedd byr ar hyd) lonydd a ffyrdd llai o faint hyd at a chan gynnwys y rhai a ddosberthir yn ffyrdd 'B' (h.y. ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd).

3. Ni fydd unrhyw gyswllt rhwng y gwartheg sy'n cael eu symud i'r tir ychwanegol neu oddi yno a da byw a allai gael eu heintio â Chlwy'r Traed a'r Genau o unrhyw fuches neu ddiadell arall. Os mai deiliad y drwydded yw'r unig borwr gwartheg ar dir comin, nid yw'r amod hwn yn gymwys ar gyfer cyswllt trwyn wrth drwyn â rhywogaethau a allai gael eu heintio â Chlwy'r Traed a'r Genau sy'n bresenol ar y tir comin.

4. Ni fydd y llwybr a gerddir gan y gwartheg yn croesi unrhyw dir, gan gynnwys caeau, lle nad oes gan yr ymgeisydd reolaeth lwyr dros unrhyw dda byw a allai gael eu heintio â Chlwy'r Traed a'r Genau.

5. Ni fydd unrhyw gyswllt trwyn wrth drwyn â da byw a allai gael eu heintio â Chlwy'r Traed a'r Genau mewn buchesi a diadellau cyfagos ar ôl i'r gwartheg trwyddedig gyrraedd. Os mai deiliad y drwydded yw'r unig borwr gwartheg ar dir comin, nid yw'r amod hwn yn gymwys ar gyfer cyswllt trwyn wrth drwyn â rhywogaethau a allai gael eu heintio â Chlwy'r Traed a'r Genau sy'n bresennol ar y tir comin.

6. Yr ymgeisydd am drwydded yw unig ddeiliad y prif ddaliad a'r rhan o'r daliad cyfagos y bydd y gwartheg trwyddedig ynddi, oni bai bod y tir cyfagos yn dir comin, os felly mae'n rhaid mai deiliad y drwydded yw'r unig borwr gwartheg.

7. Rhoddir y drwydded hon i geidwad y gwartheg sy'n cael eu symud a gellir ei diwygio, ei hatal dros dro neu ei dirymu, yn ysgrifenedig, ar unrhyw adeg.

8. Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am symud y gwartheg, ar gais Arolygydd Milfeddygol, un o swyddogion Llywodraeth Cymru neu Arolygydd o'r Awdurdod Lleol neu aelod o heddlu yn rhoi ei enw a'i gyfeiriad a bydd yn cyflwyno copi o'r drwydded hon ac yn caniatáu iddo gael ei gopïo.

9. Caiff y prif ddaliad a'r darn o dir ar y daliad cyfagos a ddangosir ar y map atodedig eu trin fel un uned ffermio at ddibenion rheoli clefydau.

10. Ni ellir defnyddio'r drwydded hon i symud gwartheg o ddaliadau sydd o dan gyfyngiadau oherwydd clefyd heblaw am dwbercwlosis buchol.

11. Gellir defnyddio'r drwydded hon ar gyfer symudiadau 'yn ôl ac ymlaen' rhwng y daliadau a nodir dros y dudalen, ar yr amod bod symudiadau o'r fath rhwng daliadau sy'n gysylltiedig ar y System Olrhain Gwartheg (CTS) ac y caiff y symudiadau eu cofnodi (ond na roddir gwybod amdanynt, o reidrwydd, i Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)).

12. Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am y gwartheg yn gwneud cais i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn ysgrifenedig os bydd am wneud unrhyw newidiadau i'r trefniant hwn ac ni fydd yn gweithredu'r newidiadau hynny nes cael awdurdod gan APHA. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais am i'r drwydded gael ei dirymu os bydd perchennog/deiliad y daliad cyfagos am ddefnyddio'r darn penodedig o dir neu os nad y person sy'n gyfrifol am y gwartheg yw'r unig borwr gwartheg mwyach.